

<b>Lles cymdeithasol: diogelwch a chydlyniant cymdeithasol (Adran 2.2.1 - 2.2.3)</b>		
<b>Thema</b>	<b>Amcan Lles</b>	
<p>Trosedd gan gynnwys: seibrdrosedd, trosedd casineb, difrod troseddol, lladrad a thrais.</p> <p>Ymddygiad gwrth-gymdeithasol.</p> <p>Diogelwch tân a ffordd.</p>	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	<p>Galluogi holl rannau o'r gymuned i gymryd rhan i wneud y lle a bydd penderfyniadau lleol yn helpu i gefnogi mwy o gydraddoldeb.</p> <p>Bydd cymryd camau i wella perthynas rhwng unigolion a chymunedau yn helpu i greu Cymru mwy cyfartal.</p> <p>Bydd cymryd camau i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddiad, erledigaeth yn helpu i gefnogi cymunedau mwy cyfartal.</p> <p>Bydd galluogi pobl o wahanol gefndiroedd i gael cyfleoedd tebyg mewn bywyd yn arwain at fwy o gydraddoldeb.</p>
	<b>Cymru o gymunedau cydlynol</b>	<p>Bydd cyflwyno mesurau i leihau trosedd, gweithgareddau gwrthgymdeithasol a gwella diogelwch (a theimlo'n ddiogel) yn cefnogi mwy o gydlyniant yn ein cymunedau.</p> <p>Bydd cynnwys cymunedau yn y penderfyniadau sy'n eu heffeithio ac mewn cyflawni gwasanaeth lleol a chefnogi trosglwyddo asedau cymunedol lle'n briodol yn cefnogi Torfaen mwy cydlynol.</p> <p>Bydd cynnwys y gymuned leol neu randdeiliaid wrth lunio'r gymuned leol ac ansawdd bywyd hefyd yn cefnogi cydlyniant cymunedol.</p> <p>Bydd hyrwyddo perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau o bobl a buddsoddi mewn cyfalaf cymdeithasol yn gwella teimladau o ddiogelwch a lles cyffredinol.</p>
	<b>Cymru Iachach</b>	<p>Bydd gwella teimladau o ddiogelwch yn helpu i gefnogi lles meddyliol a chorfforol pobl e.e. cefnogir pobl i gael ffordd o fyw iachach os bydd y profiad o deithio llesol yn dda h.y. pobl yn teimlo'n ddiogel yn cerdded beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus.</p> <p>Byddai cymryd camau i wella camddefnyddio sylweddau, yfed niweidiol a lles meddyliol yn gwella'n arwyddocaol iechyd meddyliol a chorfforol ac anghydraddoldeb mewn lles ynghyd â diogelwch cymunedol. Mae camddefnyddio sylweddau ac yfed niweidiol hefyd yn cynyddu PAP yn uniongyrchol ac felly cyfleoedd bywyd cenedlaethau'r dyfodol.</p> <p>Bydd gwella diogelwch tân a ffordd yn cael effaith uniongyrchol ar les corfforol. Bydd ffyrdd diogelach yn caniatáu i fwy o bobl sylweddoli manteision iechyd teithio llesol.</p>

	<p><b>Cymru Ffyniannus</b></p>	<p>Bydd gwella cyfleoedd bywyd i bawb, gan ganiatáu iddynt gyflawni eu potensial, yn helpu i gefnogi economi ffyniannus.</p> <p>Bydd lleihau effaith trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar fusnesau lleol yn cefnogi'r economi lleol.</p> <p>Bydd delio â'r heriau economaidd y mae pobl yn eu wynebu yn eu cymuned a fedr, os nad ydynt yn cael eu wynebu, helpu i danseilio teimladau o ymddiriedaeth a diogelwch, yn cefnogi gwell cydlyniant cymunedol a chyfrannu tuag at les economaidd.</p> <p>Bydd gwella diogelwch ar y ffordd yn cefnogi busnesau lleol sy'n dibynnu ar y seilwaith ffyrdd lleol.</p> <p>Bydd cynyddu teithio llesol yn helpu i leihau nifer cerbydau ac allyriant carbon cysylltiedig. Bydd llwybrau teithio llesol, yn enwedig rhai sy'n darparu potensial cymudo, hefyd yn lleihau cost teithio ac felly delio â nifer o bobl sydd dioddef tlodi mewn gwaith.</p>
	<p><b>Cymru Gydnerth</b></p>	<p>Cydnabyddir gwerth positif parciau a mathau eraill o fannau cyhoeddus gwyrdd/seilwaith gwyrdd i les dynol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod man gwyrdd yn agos at drws ffyrnt person yn cyflwyno'r cyfle gorau ar gyfer defnydd mewn cymunedau. Bydd gweithredu i gynnal a gwella'r asedau hyn yn helpu i gefnogi cydlyniant cymunedol.</p>
	<p><b>Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu</b></p>	<p>Bydd gweithredu i annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon ac adloniant yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a gall leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p> <p>Gall gweithredu i rwystro gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd a thanau gwyllt yn yr ucheldiroedd helpu i warchod y dirwedd eiconig yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau nawr ac i'r dyfodol.</p>
	<p><b>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</b></p>	<p>Mae cefnogi grwpiau amrywiol o bobl (gan gynnwys rhai o wahanol ddiwylliannau ac ethnigrwydd) i dynnu ymlaen yn dda yn bwysig ar gyfer lles a bydd yn helpu i hyrwyddo cyfrifoldeb byd-eang.</p>

**Lles cymdeithasol: tai** (Adran 2.2.4)

Thema	Amcan Lles	Cyfraniad
Fforddiadwyedd - prisiau tai, prisiau rhentu a chymhareb pris tŷ i enillion	<b>Cymru gydnerth</b>	Gellir rheoli'r amgylchedd o gwmpas tai a'i wella i wneud y mwyaf o fioamrywiaeth ac i gefnogi ecosystemau iach. Gellir defnyddio'r amgylchedd o gwmpas tai i reoli llifogydd dŵr wyneb e.e. gyda systemau draenio trefol cynaliadwy, cynlluniau plannu a phalmantau hydraidd.
Amrywiad daearyddol	<b>Cymru ffyniannus</b>	Bydd darparu tai fforddiadwy o ansawdd sy'n addas at y dyfodol ac sy'n agos at ble mae pobl yn byw yn helpu i gefnogi lles economaidd.
Galw am dai cymdeithasol		Gall gweithgareddau adfer tai ddarparu cyfle lleol ar gyfer creu swyddi a hyfforddiant.
Digartrefedd		Bydd gwella ansawdd tai yn y sector cyhoeddus neu breifat o ran arbed ynni (costau ynni is) yn cyfrannu at les economaidd. Bydd defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol hefyd yn lleihau allyriant carbon (lliniaru newid yn yr hinsawdd). Gall lleihau costau cludiant gynyddu'r incwm sydd ar gael i'w wario a dod â phobl allan o dlodi mewn gwaith.
Eiddo gwag		Bydd diwallu'r galw lleol am dai (nawr ac yn y dyfodol) yn darparu cartrefi i'r gweithlu lleol a chefnogi economi cydnerth lleol.
Cludiant a chost cludiant		Bydd diwallu anghenion addysg lleol a chefnogi pobl ifanc i gyrraedd eu potensial yn helpu i sicrhau bod anghenion y gweithlu yn y dyfodol yn cael eu diwallu.
Ansawdd tai	<b>Cymru iachach</b>	Bydd gwella sgôr iechyd a diogelwch tai yn arwain at fannau iachach i bobl fyw ynddynt. Bydd cynllunio datblygiadau newydd yn agos at lwybrau teithio llesol hefyd yn cefnogi pobl i arwain bywydau iachach.
	<b>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</b>	Bydd gweithredu i leihau allyriant nwyon tŷ gwydr trwy gael tai mwy ynni-effeithiol a chefnogi cynhesrwydd fforddiadwy yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd - problem fyd-eang.
	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	Bydd sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio'n ofalus yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol e.e. creu mannau cyffredin.
	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Bydd sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael yn ein cymunedau yn cefnogi cymunedau mwy cyfartal. Bydd lleihau digartrefedd yn gyffredinol ac i grwpiau penodol yn cyfrannu mwy at gymunedau mwy cyfartal. Bydd galluogi pobl beth bynnag yw eu cefndir neu amgylchiadau i feddu ar, rhannol feddu ar neu rentu tai yn helpu i greu cymunedau mwy cyfartal.

**Lles cymdeithasol: amddifadedd a blynyddoedd cynnar** (Adran 2.2.5 - 2.2.6)

Thema	Amcan Lles	Cyfraniad
Amrywiad daearyddol	<b>Cymru iachach</b>	Mae perthynas gref rhwng ymddygiad sy'n niweidio iechyd ac amddifadedd a'r amgylchiadau bywyd sy'n mynd gyda hynny, sy'n golygu bod cyfraddau yn uwch mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog uchel. Bydd gweithredu i drechu tlodi yn helpu i greu cymdeithas lle gwneir y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl.
Amddifadedd materol	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	Bydd cynnwys y cymunedau a'r teuluoedd mwyaf difreintiedig yn y penderfyniadau sy'n eu heffeithio ac mewn cyflawniad gwasanaeth lleol yn helpu i hyrwyddo cydlyniant.
Amddifadedd incwm, mynediad at wasanaethau, tai ac ati	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Bydd gweithredu i drechu tlodi ac anghydraddoldeb lleol yn helpu i greu Cymru mwy cyfartal.
Disgwyliad einioes, marwolaeth gynamserol a disgwyliad einioes iach	<b>Cymru gydnerth</b>	Mae cynnal ecosystemau iach yn cyfrannu at les economaidd ac iechyd y bobl sy'n byw yn ein cymunedau. Gellir cefnogi gweithgaredd corfforol trwy leihau rhwystrau megis mynediad teg i fannau gwyrdd. Mae parciau a mathau eraill o fannau gwyrdd/seilwaith gwyrdd yn cael effaith positif ar les dynol.
Blynyddoedd cynnar - tlodi plant, aelwydydd heb waith, prydau ysgol am ddim a cherrig milltir datblygiadol.	<b>Cymru ffyniannus</b>	Bydd gwella cyfleoedd bywyd i bawb, gan ganiatáu iddynt gyflawni eu potensial, yn helpu i gefnogi lles economaidd.
Effaith diwygio lles		Gall profiadau plentyndod benderfynu datblygiad hirdymor a llwyddiannus bywyd cyfan. Gall gweithredu i drechu tlodi mewn plentyndod gefnogi lles economaidd.

**Lles cymdeithasol: iechyd** (Adran 2.2.7)

Thema	Amcan Lles	Cyfraniad
Disgwyliad einioes, marwolaeth gynamserol a disgwyliad einioes iach.	<b>Cymru ffyniannus</b>	Bydd cefnogi pobl i fyw bywydau iach, lle medrent gyflawni eu potensial addysgol a dod yn rhan o weithlu iach yn cyfrannu at les economaidd ehangach.
Plant a phobl ifanc: beichiogrwydd yn yr ardegau, pwysau adeg beichiogrwydd, pwysau geni, bwydo ar y fron, imiwneiddio, iechyd y geg.	<b>Cymru iachach</b>	Cefnogi cyfnodau bywydau iach - plant a phobl ifanc yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd, pobl yn byw bywydau iach a heneiddio'n dda.  Bydd cymryd mesurau ataliol yn helpu i osgoi problemau iechyd yn ddiweddarach.
PAP  Pobl hŷn: dementia a thorri'r glun	<b>Cymru gydnerth</b>	Mae cael ecosystemau iach yn hanfodol i'n hiechyd - maent yn cynhyrchu ocsigen a maetholion, yn helpu i reoleiddio'r hinsawdd, storio carbon a chwarae rhan mewn rheoli dŵr (lleihau peryglon llifogydd). Medrent wella ansawdd yr aer (amsugno llygrwyr yn yr aer sy'n niweidiol i iechyd) a lleihau sŵn. Maent hefyd yn adnawdd peillio sy'n bwysig ar gyfer cynhyrchu bwyd.  Gall cael mynediad da i fannau agored ar gyfer adloniant a gweithgareddau corfforol gefnogi ffordd iach o fyw. Gall coed a llystyfiant arall helpu i amsugno llygrwyr yn yr aer sy'n niweidiol i iechyd. Medrent hefyd ddarparu cysgod ar ddyddiau poeth.
Ymddygiad iach e.e. ysmegu, diet iach, gweithgaredd corfforol/anweithgaredd, camddefnyddio alcohol a chyffuriau	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	Bydd gwella'r teimlad o ddiogelwch yn helpu i gefnogi lles meddyliol a chorfforol pobl.
	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Bydd trechu'r problemau sy'n achosi anghyfartaledd iechyd yn cefnogi rhannau o'n cymunedau i gyrraedd eu potensial llawn.

**Lles economaidd** (Adran 2.3)

<b>Thema</b>	<b>Amcan Lles</b>	<b>Cyfraniad</b>
Mentrau actif, mathau o gyflogaeth a lle mae pobl yn qweithio Cymwysterau  Cyflog ar gyfartaledd  Amddifadedd incwm a diwethdra a bod heb waith  Ddim mewn addysg lawn-amser, cyflogaeth neu hyfforddiant	<b>Cymru ffyniannus</b>	Bydd cymryd anghenion addysg a sgiliau presennol ac i'r dyfodol i ystyriaeth wrth gynllunio busnes yn helpu i gefnogi economi blaenqar a chydnerth lleol. Bydd cymryd newid demograffig i ystyriaeth yn helpu i gefnogi economi lleol cydnerth. Bydd gwella canlyniadau addysgol a sgiliau, yn enwedig i bobl ifanc o deuluoedd incwm isel, yn cefnogi lles economaidd yn y tymor hirach. Gall cefnogi effeithlonrwydd busnes/gweithdrefnol a lleihau faint o wastraff a gynhyrchir arwain at ostyngiadau sylweddol mewn costau cynhyrchu/llinell waelod.  Gall cynnal a gwella adnoddau naturiol gyflawni cyfleoedd economaidd e.e. twristiaeth, cynhyrchu bwyd ac ynni.
Mynediad at ofal plant	<b>Cymru gydnerth</b>	Mae cynnal ecosystemau iach yn cyfrannu at les economaidd presennol ac i'r dyfodol. Mae llawer o swyddi ac incwm yn gysylltiedig â'r amgylchedd o gnydau pren a gweithgareddau coedlan eraill, pysgodfeydd, gan gynnwys busnesau twristiaeth ac adloniant ac incwm o gynhyrchu ynni gwyrdd. Gall cynnal a gwella ansawdd yr adnoddau hyn arwain at fanteision i'r economi lleol.
Teithio i'r gwaith, dibynnu ar y car preifat, seilwaith cludiant	<b>Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu</b>	Cyfalafu ar yr amgylchedd naturiol ysbrydolgar a threftadaeth ddiwylliannol Torfaen trwy hybu bywyd gwyllt, gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth treftadaeth.
Tir datblygu strategol  Manwerthu a hamdden  Twristiaeth	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Bydd gweithredu i gynyddu cynhwysiant digidol yn helpu i ddelio gydag anghydraddoldeb digidol yn Nhorfaen. Bydd gweithredu i drechu'r bwch cyflog rhwng y rhywiau yn cyfrannu at Gymru mwy cyfartal. Bydd darogan gofynion addysg a sgiliau i'r dyfodol yn cyfrannu at Gymru mwy cyfartal.
	<b>Cymru iachach</b>	Gall bod mewn gwaith gael effaith bositif ar iechyd unigolyn.

**Lles amgylcheddol** (Adran 2.2.7)

Thema	Amcan Lles	Cyfraniad
Ecosystemau iach / asedau naturiol	<b>Cymru gydnerth</b>	Mae adnoddau naturiol - ein tir, aer, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd - yn darparu ein hanghenion mwyaf sylfaenol, gan gynnwys bwyd, ynni a diogelwch, ac maent yn ein cadw'n iach. Lle mae adnoddau naturiol dan bwysau mae'n cynrychioli risg i les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol hirdymor. Mae gwella rheolaeth ein hadnoddau naturiol yn golygu y medrwn ddelio'n well gyda heriau megis newid yn yr hinsawdd, trechu tloedi ac anghydraddoldeb a gwella iechyd corfforol a meddyliol pobl.
Llifogydd Tir halogedig Ansawdd dŵr	<b>Cymru iachach</b>	Gall gwell ansawdd dŵr a defnyddio tir yn fwy effeithiol i reoli llifogydd helpu i wneud y mwyaf o les corfforol a meddyliol pobl. Mae mannau gwyrdd o ansawdd da yn ffordd gost-effeithiol o gael canlyniadau iechyd positif.  Mae cael ecosystemau iach yn hanfodol i'n hiechyd - maent yn cynhyrchu ocsigen a maetholion, yn helpu i reoleiddio'r hinsawdd, storio carbon a chwarae rhan mewn rheoli dŵr (lleihau peryglon llifogydd). Medrent wella ansawdd yr aer (amsugno llygrwyr yn yr aer sy'n niweidiol i iechyd) a lleihau sŵn. Maent hefyd yn adnawdd peillio sy'n bwysig ar gyfer cynhyrchu bwyd.
SDdGA, GNL, SINC, Ardaloedd Tirwedd Arbennig a Thirweddau o Bwysigrwydd Hanesyddol Eithriadol Cysylltedd ecolegol Ansawdd aer, traffig a chysgod y canopi coed	<b>Cymru ffyniannus</b>	Gall coed a llystyfiant arall helpu i liniaru eithafion newid yn yr hinsawdd, gan ddarparu cysgod mewn ardaloedd trefol lle mae pobl yn byw a gweithio.  Mae llawer o swyddi ac incwm yn gysylltiedig â chnydau pren a gweithgareddau coedlan eraill, pysgodfeydd, gan gynnwys busnesau twristiaeth ac adloniant ac incwm o gynhyrchu ynni gwyrdd. Gall cynnal a gwella ansawdd yr adnoddau hyn gyflawni <u>manteision i'r economi lleol</u> .
Sŵn Pridd	<b>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</b>	Bydd gweithgaredd sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac sy'n cefnogi ecosystemau iach yn cyfrannu at les y byd ehanqach.
Gwastraff a glendid	<b>Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu</b>	Bydd cynnal a gwella ansawdd yr ecosystem a'r amgylchedd yn darparu ardaloedd diwylliannol unigryw ac ardaloedd deniadol i bobl ymgymryd â chwaraeon a gweithgareddau adloniant. Nid oes modd gwahanu tirwedd Cymru o'i diwylliant, a gall ansawdd ac amrywiaeth tirwedd mewn cyflwr da helpu i ddenu twristiaid i'r ardal.

**Lles diwylliannol** (Adran 2.5)

Thema	Amcan Lles	Cyfraniad
Yr iaith Gymraeg.	<b>Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu</b>	Bydd gweithredu i helpu cefnogi a thyfu'r iaith Gymraeg yn cyfrannu at ddiwylliant a hunaniaeth Cymru.
Man geni, ethnigrwydd a chrefydd.	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Bydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin dim llai ffafriol na'r Saesneg yn cyfrannu at Gymru mwy cyfartal.
	<b>Cymru iachach</b>	Mae gwella mynediad at fannau gwyrdd o ansawdd yn ffordd gost-ffeithiol o gael canlyniadau iechyd cadarnhaol. Bydd dymchwel y rhwystrau i bobl yn ymarfer a chymryd rhan mewn chwaraeon yn cefnogi cymunedau iachach.
Y celfyddydau, amgueddfeydd a mannau hanesyddol.	<b>Cymru gydnerth</b>	Mae tirwedd Cymru ynghlwm wrth ei diwylliant; gall ansawdd ac amrywiaeth tirwedd mewn cyflwr da helpu i ddenu twristiaid i'r ardal.
Cymryd rhan mewn chwaraeon.	<b>Cymru o gymunedau cydlynol</b>	Bydd cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg lle maent yn byw a gweithio yn helpu i greu cymunedau mwy cydlynol.

<b>Newid demograffig</b>	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Bydd gweithredu i gynllunio ar gyfer newidiadau demograffig a newidiadau cymdeithasol yn helpu cefnogi cymdeithas mwy cyfartal.
	<b>Cymru iachach</b>	Bydd datblygu a mabwysiadu dulliau rhwystrl sy'n cyfrif am newidiadau demograffig yn y dyfodol (galw cynyddol cysylltiedig) yn cyfrannu at Gymru iachach.
	<b>Cymru ffyniannus</b>	Bydd cymryd anghenion addysg a sgiliau nawr ac yn y dyfodol i ystyriaeth wrth gynllunio busnes yn helpu cefnogi economi
	<b>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</b>	Gall paratoi am newid demograffig ar lefel leol nawr sicrhau bod dinasyddion Torfaen yn defnyddio adnoddau sy'n lleihau mewn modd cyfrifol yn fyd-eang yn y dyfodol.
	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	Bydd buddsoddi mewn rhwydweithiau cyfalaf cymdeithasol cryf, cynaliadwy ac effeithiol yn helpu sicrhau bod cymunedau mwy cydlynus yn medru gwasanaethu eu hanghenion eu hunain yn y dyfodol e.e. cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio.
	<b>Cymru gydnerth</b>	Bydd sicrhau bod gan boblogaeth sy'n heneiddio fynediad at fannau gwyrdd yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio.



<b>Rhagolygon iechyd</b>	<b>Cymru gydnerth</b>	Mae cael ecosystemau iach yn hanfodol i iechyd cenedlaethau'r dyfodol - maent yn cynhyrchu oscisgen a maetholion, yn helpu i reoleiddio'r hinsawdd, storio carbon ac yn chwarae rol o ran rheoli dwr (lleihau peryglon llifogydd). Medrent wella ansawdd yr aer (amsugno llygrwyr yn yr aer sy'n niweidiol i iechyd) a lleihau swn. Maent hefyd yn ffynhonnell beillio sy'n bwysig ar gyfer cynhyrchu bwyd.
	<b>Cymru ffyniannus</b>	Bydd mabwysiadu dulliau rhwystrol sy'n galluogi i bobl fyw bywydau iachach, gan ganiatáu iddynt gyflawni eu potensial, yn helpu cefnogi lles economaidd. Bydd cyfrif am unrhyw risgiau iechyd yn y dyfodol wrth gynllunio busnes yn helpu i gefnogi lles economaidd.
	<b>Cymru iachach</b>	Bydd cymryd newid demograffig yn y dyfodol i ystyriaeth yn caniatáu gwell cynllunio ar gyfer lles corfforol a meddyliol pobl yn y tymor hir. Mae amcanestyniadau disgwyliad einioes hirach yn awgrymu cynnydd mewn cyflyrau cronig cysylltiedig ag oedran a bydd hyn yn cael effaith ar wasanaethau cyhoeddus.
	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Bydd gweithredu i gynllunio ar gyfer effaith newidiadau demograffig a chymdeithasol ar ofynion iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i aefnogi cymdeithas mwy cyfartal. Bydd gweithredu i leihau anghydraddoldeb yn lleihau effaith iechyd gwael ar gymunedau penodol. Bydd lleihau rhwystrau i fannau gwyrdd, yn enwedig ar gyfer y grwpiau hynny sy'n llai tebygol i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac felly'n llai tebygol o elwa o'r manteision a ddarperir gan fannau gwyrdd lleol, yn cyfrannu at <u>Gymru mwy cyfartal</u> .
	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	Bydd diwallu gofynion iechyd a gofal cymdeithasol i'r dyfodol yn helpu i gefnogi cymunedau mwy cydlynol.

Thema	Amcan Lles	Cyfraniad
<b>Rhagolygon economaidd</b>	<b>Cymru ffyniannus</b>	<p>Bydd cymryd i ystyriaeth anghenion addysg a sgiliau yn y dyfodol wrth gynllunio busnes yn helpu i gefnogi economi lleol arloesol a chydnerth.</p> <p>Bydd lleihau gwastraff yn lleihau costau (gwaredu gwastraff a deunyddiau amrwd) cefnogi'r llinell sylfaen a gall roi mantais gystadleuol. Bydd lleihau tirlenwi yn helpu lleihau allyriant nwyon ty gwydr sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.</p> <p>Bydd datblygu modelau amgen / cynaliadwy o gyflawni gwasanaethau sy'n cyfrif am ffactorau megis mesurau llymder parhaus neu adael yr Undeb Ewropeaidd yn cefnogi lles economaidd hirdymor.</p> <p>Bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd y gadwyn gyflenwi a chydnerthedd o ran costau uwch deunyddiau amrwd ac ynni yn cyfrannu at les economaidd hirdymor.</p> <p>Bydd gwneud y mwyaf o'r manteision i'r economi lleol (swyddi a chontractau ac ati) o ddatblygiadau strategol yn y dyfodol megis SCCC, Circuit of Wales a'r Lagwn Llanw yn cyfrannu at les economaidd hirdymor.</p> <p>Bydd datblygu economi sylfaen h.y. Nwyddau a gwasanaethau rydym yn eu defnyddio yn ein bywydau bob dydd yn lleol e.e. Bwyd, ynni, gofal cymdeithasol ac ati yn cyfrannu at les economaidd hirdymor.</p> <p>Gall technoleg newydd leihau'r angen i deithio ac arwain at ostyngiad mewn allyriant carbon.</p>
	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	Mae cymunedau sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol ac yn lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil yn fwy cydnerth a hyfw yn y tymor hir.
	<b>Cymru iachach</b>	Gall datblygiadau technolegol gefnogi gwelliannau i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.
	<b>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</b>	Trwy weithredu i fod yn fwy effeithiol gyda deunyddiau rydym yn chwarae ein rhan i beidio a defnyddio mwy na'n cyfran deg ni o adnoddau'r byd.
	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Bydd gweithredu i gynyddu cynhwysiant digidol yn helpu i drechu anghydraddoldeb digidol yn Nhorfaen. Bydd gweithredu i wneud ein hadeiladau (gan gynnwys rhai domestig) yn fwy ynni-effeithiol a chynnwys cydnerthedd o ran prisiau uwch yn y dyfodol yn helpu hyrwyddo cymdeithas mwy cyfartal. Bydd rhagweld gofynion addysg a sgiliau i'r dyfodol yn cyfrannu at Gymru decach.

Thema	Amcan Lles	Cyfraniad
<b>Newid yn yr Hinsawdd</b>	<b>Cymru ffyniannus</b>	<p>Bydd gweithredu i wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau yn helpu i hyrwyddo cymdeithas arloesol, carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn avfrannol.</p> <p>Bydd cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn helpu i hyrwyddo cymdeithas arloesol, carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn gyfrannol (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd). Gall hyn hefyd roi cyfle gwaith a datblygu sgiliau newydd.</p> <p>Bydd lleihau allyriant cludiant trwy annog mwy o deithio llesol yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Gallai gwelliannau mewn cludiant cyhoeddus a mwy o lwybrau cerdded a beicio helpu pobl i gael gwaith neu gael mynediad at hyfforddiant.</p> <p>Gall cefnogi tyfu bwyd yn y gymuned a chysylltu cynhyrchwyr lleol gyda marchnadoedd lleol leihau peryglon anwadalwch marchnadoedd a phrisiau bwyd sy'n gysylltiedig a newid yn yr hinsawdd.</p>
	<b>Cymru gydnerth</b>	<p>Gall seilwaith gwyrdd helpu i gefnogi gwytnwch cymdeithasol ac economaidd a'r gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol e.e. rheoli dwr yn y dirwedd. Hefyd rol seilwaith gwyrdd i leihau effaith tymheredd yn codi yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac o gwmpas seilwaith allweddol ac ati.</p>
	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	<p>Bydd gweithredu i wneud ein hadeiladau (gan gynnwys rhai domestig) yn fwy ynni-effeithiol a lleihau costau tanwydd yn helpu i hwrwddo cymdeithas mwy cyfartal.</p> <p>Mae gan effeithiau newid yn yr hinsawdd y potensial i gynyddu anghydraddoldeb ymhellach yn ein cymunedau a chael mwy o effaith ar grwpiau sy'n agored i niwed.</p>
	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	<p>Mae cymunedau sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol yn fwy cydnerth a hyfw yn y tymor hir.</p> <p>Mae'r peryglon sy'n gysylltiedig a newid yn yr hinsawdd yn cynrychioli bygythiadau gwirioneddol i'n cymunedau a'r seilwaith hanfodol maent yn dibynnu arno.</p> <p>Bydd gweithredu i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys hafau poethach, sychach, gaeafau cynhesach, gwlypach a thywydd mwy eithafol) ar ein cymunedau a'n seilwaith yn helpu i greu cymunedau hyfyw, diogel gyda chysylltiadau da.</p>
	<b>Cymru iachach</b>	<p>Mae adeiladau cynhesach, mwy ynni-effeithiol gyda chostau tanwydd is a chmau i leihau tloedi tanwydd yn helpu i gefnogi lles corfforol a meddyliol pobl.</p> <p>Gallai gwelliannau mewn cludiant cyhoeddus a llywybrau cerdded a beicio helpu i qefnogi ffordd iachach o fyw.</p> <p>Bydd gweithredu'n lleol i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn helpu i gefnogi lles corfforol a meddyliol cenedlaethau'r dyfodol e.e. Polisiâu tywydd poeth, cynlluniau draenio trefol cynaliadwy ac ati.</p>
	<b>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</b>	<p>Bydd gweithredu i leihau allyriant nwyon tŷ gwydr (sy'n gysylltiedig a thirlenwi a chynhyrchu deunyddiau amrwd) yn helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd - problem fyd-eang.</p>

<b>Ynni</b>	<b>Cymru ffyniannus</b>	Bydd cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn helpu i hyrwyddo cymdeithas arloesol, carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyfrannol (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd). Gallai hyn hefyd ddarparu cyfle gwaith a datblygu <sup>sniliau newydd</sup> Bydd cymryd i ystyriaeth bris ynni yn y tymor hir wrth gynllunio busnes a gweithredu i sicrhau diogelwch cyflenwad ynni (gan gynnwys i'ch cadwyn gyflenwad chi) helpu economi lleol mwy cydnerth.
	<b>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</b>	Trwy gymryd camau i arbed ynni rydym yn chwarae ein rhan o ran peidio a defnyddio mwy na'n cyfran deg o adnoddau'r ddaear.
	<b>Cymru gydnerth</b>	Bydd adnabod cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni lleol adnewyddadwy yn helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac yn helpu meithrin gwytnwch ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol e.e. prisiau'n codi.
	<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	Bydd mesurau i ddelio gyda diogelwch a fforddiadwyedd ynni yn helpu i gyfrannu tuag at gymunedau hyfyw, diogel gyda chysylltiadau da.
	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Bydd gweithredu i wneud ein hadeiladau (gan gynnwys rhai domestig) yn fwy ynni-effeithiol a lleihau costau tanwydd yn helpu i hyrwyddo cymdeithas mwy cyfartal.
	<b>Cymru iachach</b>	Gall cefnogi cymunedau i symud i ffwrdd o ddibyniaeth ar danwydd ffosil arwain at welliannau yn ansawdd yr aer a lleihad mewn cyflyrau iechyd cronig. Bydd sicrhau bod gan bobl Torfaen fynediad at gyflenwad diogel o ynni fforddiadwy yn helpu i gefnogi lles corfforol a meddyliol.

<b>Defnyddio tir</b>	<b>Cymru gydnherth</b>	Cydbwysu pwysau defnydd tir ar ein hadnoddau naturiol e.e. datblygiad (tai a seilwaith), diwydiant, hamdden ac adloniant. Ynghyd a chefnogi ein hanghenion sylfaenol, mae gwasanaethau llai gweladwy yn cael eu darparu gan ein hadnoddau naturiol; mae hyn yn cynnwys cadw dwr, cefnogi trychfilod peillio a storio carbon. Lle mae adnoddau naturiol dan bwysau gall hyn gynyddioli rics i les hirdymor. Gall sicrhau bod ein hagwedd tuag at gynhyrchu bwyd yn Nhorfaen yn gydnherth i effeithiau newid yn yr hinsawdd wella <u>diogelwch bwyd i'n dinasyddion.</u>
	<b>Cymru iachach</b>	Bydd cydbwysu pwysau defnydd tir fel bod tir ar gael i ddibenion adloniant yn cyfrannu at Gymru iachach.
	<b>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</b>	Bydd mabwysiadu patrymau defnyddio sy'n golygu ein bod yn defnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear yn cyfrannu at les byd-eang. Gall adnoddau naturiol megis pridd a phlanhigion helpu i gadw a storio carbon a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd - problem fyd-eang.
	<b>Cymru ffyniannus</b>	Mae cynnal ecosystemau iach sy'n cefnogi ein hanghenion sylfaenol yn cyfrannu at les economaidd presennol a hirdymor. Mae llawer o swyddi ac incwm yn gysylltiedig a'r amgylchedd o gnydau pren a gweithgareddau coedlan eraill, pysgodfeydd, gan gynnwys busnesau twristiaeth ac adloniant ac incwm o gynhyrchu ynni gwyrdd. Gall cynnal a gwella ansawdd yr adnoddau hyn gyflawni manteision i'r economi lleol.  Gall buddsoddi mewn technegau rheoli tir effaith isel arwain at ostyngiadau mewn costau ar gyfer rheolwyr tir yn y dyfodol.
	<b>Cymru mwy cyfartal</b>	Gall adnabod lle mae'r grwpiau sy'n agored i niwed a'r grwpiau difreintiedig a allai elwa'r mwyaf o gael mynediad at fannau gwyrdd arwain at gymdeithas mwy cyfartal.
	<b>Cymru o gymunedau cydlynol</b>	Gall rhoi cyfle i'r gymuned reoli asedau lle nad oes gan gyrff cyhoeddus yr adnoddau i'w gweithredu bellach roi hwb i gyfalaf cymdeithasol a chydlyniant cymunedol.
	<b>Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu</b>	Bydd gwella ansawdd a natur unigryw'r dirwedd leol gyfrannu at ymwybyddiaeth a theimlad o le dyfnach ar gyfer cymunedau lleol.